**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 622

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

## RHAN 5

## Buddion ymddeol

### PENNOD 3

### Buddion rhan-ymddeoliad

**Arfer yr opsiwn o ran-ymddeoliad**

**72.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys, mewn perthynas â chyfnod di-dor o wasanaeth pensiynadwy, i aelod actif o'r cynllun hwn (P)—

(a) sy'n 55 mlwydd oed o leiaf; a

(b) y byddai hawl ganddo i gael taliad ar unwaith o bensiwn ymddeol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw o wasanaeth pe bai P yn gadael gwasanaeth pensiynadwy ac yn hawlio taliad o'r pensiwn.

(2) Caiff P arfer yr opsiwn o barhau mewn gwasanaeth pensiynadwy o dan y cynllun hwn, ond hawlio taliad o'r cyfan o bensiwn cronedig P mewn perthynas â'r gwasanaeth pensiynadwy cyn arfer yr opsiwn o ran-ymddeoliad.

(3) Os oes gan P fwy nag un cyfrif aelod actif, caniateir arfer yr opsiwn o ran-ymddeoliad mewn cysylltiad â rhai neu'r cwbl o gyfrifon cyfrif aelod actif P.

(4) Ni chaniateir arfer yr opsiwn o ran-ymddeoliad ac eithrio drwy roi hysbysiad i'r rheolwr cynllun ("hysbysiad optio"), yn y ffurf sy'n ofynnol gan y rheolwr cynllun a rhaid ei roi cyn y dyddiad yr hawlir y taliad cyntaf o'r pensiwn ymddeol arno.

(5) At ddibenion y Rheoliadau hyn, ystyrir bod yr opsiwn o ran-ymddeoliad wedi ei arfer ar ba bynnag ddyddiad a gytunir rhwng yr aelod a'r rheolwr cynllun.

(6) Rhaid i'r hysbysiad optio bennu bod P yn hawlio'r cyfan o bensiwn cronedig P mewn cysylltiad â'i gyfrif aelod actif, mewn cysylltiad â gwasanaeth cynharach yn y gyflogaeth gynllun honno.

**Cyfradd flynyddol pensiwn ymddeol ar ôl arfer opsiwn o ran-ymddeoliad**

**73.**—(1) Mae hawl gan aelod actif o'r cynllun hwn (P) sy'n arfer yr opsiwn o ran-ymddeoliad i gael taliad ar unwaith o bensiwn ymddeol.

(2) Cyfrifir y gyfradd flynyddol o bensiwn ymddeol o dan reoliad 68 (cyfradd flynyddol pensiwn ymddeol (aelodau actif)) drwy gyfeirio at swm y pensiwn enilledig ymddeol a swm y pensiwn ychwanegol ymddeol (os oes un) o'r disgrifiad hwnnw a bennir yng nghyfrif ymddeol yr aelod.

(3) At ddibenion y Rhan hon, pan fo aelod yn arfer yr opsiwn o ran-ymddeoliad, diwrnod olaf gwasanaeth pensiynadwy'r aelod hwnnw, mewn perthynas â'r gwasanaeth pensiynadwy yr arferir

yr opsiwn o ran-ymddeoliad mewn cysylltiad ag ef, yw'r diwrnod yr arferodd yr aelod yr opsiwn o ran-ymddeoliad.